

Seremoni Dyfarnu Medal y Cymmrodorion i Dr Daniel Huws

Mae'r cyfle hwn i gyflwyno Dr Daniel Huws i dderbyn Medal y Cymmrodorion yn fraint fawr ac yn bleser personol i mi, a hynny oherwydd bod fy ngwaith i ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol wedi dibynnu cymaint nid yn unig ar waith cyhoeddus Daniel, ond hefyd ar ei farn a'i gyngor hael. Ac rwy'n gwybod bod sawl un arall o'm cydweithwyr yn y maes yr un mor ddyledus iddo, ac fy mod i felly yn siarad ar ran nifer fawr wrth dalu teyrnged i Daniel Huws heddiw.



O ran amseru ac o ran lleoliad mae'r seremoni hon yn briodol iawn. Mae cynhadledd i ddathlu cyhoeddi campwaith Daniel, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes*, newydd ddod i ben y prynhawn yma, ac mae amrediad y papurau a draddodwyd dros y tridiau diwethaf yn tystio i ddylanwad ei waith a'r parch mawr tuag ato sydd gan bawb sy'n gweithio ym maes llên a dysg y Gymraeg. Ac mae'n briodol hefyd mai yma yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y cynhelir y seremoni hon, lle y treuliodd Daniel ei yrfa broffesiynol. Ymunodd e â staff y Llyfrgell dros drigain mlynedd yn ôl yn 1961, a bu'n Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau yma o 1981 tan ei ymddeoliad yn 1992.

Mae'n ddigon naturiol i ni ganolbwyntio ein sylw ar y campwaith sydd newydd gael ei gyhoeddi y mis hwn, ond yn gyntaf hoffwn i sôn am waith cynharach Daniel, yr astudiaethau ar lawysgrifau unigol y casglwyd nifer ohonynt ynghyd yn y gyfrol *Medieval Welsh Manuscripts* a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn y flwyddyn 2000. Ymhlith y llawysgrifau enwog y mae Daniel wedi taflu goleuni newydd arnynt y mae Llyfr Llandaf, Llyfr Gwyn Rhydderch, Llyfr Coch Hergest a rhai o lawysgrifau cynharaf Cyfraith Hywel, ond rwyf am fanylu nawr ar un astudiaeth arbennig, a phellgyrhaeddol ei dylanwad, sef yr un ar Lawysgrif Hendregadredd a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn y Gymraeg yng *Nghylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn 1981 ac y cafwyd cyfieithiad Saesneg ohoni yn *Medieval Welsh Manuscripts*. Mae'r gwahaniaeth barn a fu am y llawysgrif honno a'r modd y bu i rai o ysgolheigion mawr rhan gynta'r ugeinfed ganrif gyfeiliorni yn ei chylch yn stori ryfedd a difyr ynddi'i hun, ond y gwir amdani yw mai Daniel Huws oedd y cyntaf i ddyddio'r llawysgrif yn ddiogel i droad y bedwaredd ganrif ar ddeg, i esbonio'r gwahanol haenau o ysgrifwyr ynddi, ac i'w lleoli trwy ei chysylltu ag Abaty Ystrad Fflur. Ac yn ganolog i'r dadansoddiad hwnnw ganddo yr oedd prif ysgrifydd y llawysgrif, yr un a fedyddiwyd gan Daniel yn 'alpha' – mynach yn Ystrad Fflur yn ôl pob tebyg tua 1300 – a'i gynllun i greu casgliad o ganu beirdd llysoedd y tywysogion. Dyma esiampl benigamp o ddawn arbennig Daniel Huws i adnabod y bobl a a fu'n gyfrifol am greu'r llawysgrifau – eu hadnabod yn yr ystyr o amgyffred eu cymhellion a'u gweledigaeth, a hynny trwy ddehongli manylion gwneuthuriad y llawysgrif, y cliwiau bach sy'n fodd i'w gosod mewn cyd-destun ystyrion. Ac yn yr achos hwn fe lwyddodd i egluro ymgais alpha a'i gydweithwyr yn y sgriptoriwm mynachaid i ddiogelu barddoniaeth cyfnod yn hanes Cymru a oedd newydd ddod i ben, barddoniaeth yn dathlu ymdrechion y tywysogion i warchod eu hannibyniaeth yn wyneb ymosodiadau'r Normaniaid. Dyma fel y mae Daniel ei hun yn crynhoi amcanion a chymeriad alpha ac arwyddocâd ei waith – a'i wendidau hefyd – mewn paragraff nodweddiadol dreiddgar a chytbwys:

Alpha oedd pensaer Hendregadredd ond ni welodd gwblhau ei lyfr. Oherwydd iddo orfod gadael ei waith yn anghyflawn, gwelwn yn gliriach mor wreiddiol oedd ei gynllun. Yr oedd yn gwneud casgliad, a chasgliad trefnus, o waith Beirdd y Tywysogion, gan ddechrau, yn amseryddol, gyda Meilir a chloi gyda chwmp y Llyw Olaf. Yr oedd eisoes wedi creu ein haniaeth lenyddol 'Beirdd y Tywysogion', a hynny o fewn cenhedlaeth i 1282. Gwelsom yn barod olygydd mor drefnus oedd, yn didoli'r beirdd, yn creu atodiadau, yn parchu gwahaniaeth statws yr awdl a'r englyn. Yr oedd yn olygydd gwreiddiol a meistrolgar yn y pethau mawr. Hwyrach nad oedd cystal golygydd yn y pethau bychain. Lle mae modd gwneud cymhariaeth gwelwn duedd yn nhestunau alpha i newid darlleniadau a ymddangosai'n dywyll. Dichon mai alpha oedd yn gyfrifol am hyn; awgryma'r sgrifen ŵr nad oedd yn ddiffygiol ei hyder. Yn ei brif amcan fe lwyddodd yn rhyfeddol i wneud casgliad o farddoniaeth beirdd y Tywysogion; er bod rhaid inni gofio i ba raddau y mae ein gwybodaeth yn seiliedig ar ei gasgliad ef. (CLIGC, xxii (1981), 13-14)

Bu'r erthygl honno gan Daniel Huws yn sylfaen anhepgor i brosiect mawr a ddechreuodd ychydig flynyddoedd wedyn, prosiect cyntaf y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd newydd, y prosiect a gynhyrchodd y golygiad ysblennydd o ganu Beirdd y Tywysogion sy'n dibynnu ar ddadansoddiad Daniel o brif ffynonellau'r cerddi yn Llawysgrif Hendregadredd.

Enghraifft arall o brosiect y bu gwaith Daniel Huws yn allweddol iddo yw'r un ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Fel arweinydd y prosiect hwnnw gallaf dystio i bwysigrwydd ei erthygl 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym' a gyhoeddwyd yn 1996, fel canllaw i ddeall y gwahanol ffrydiau a ddaeth at ei gilydd i greu'r corff o farddoniaeth a briodolir i Dafydd yn y llawysgrifau, ac yn enwedig yr olion o drosglwyddiad llafar sy'n dod i'r amlwg yn y bymthegfed ganrif. Ac mae gwaith Daniel ar Lawysgrif Hendregadredd yn berthnasol yma eto, oherwydd rydym wedi dibynnu ar ei awgrym ef fod posibilrwydd cryf bod y testun o englynion Dafydd i'r Grog o Gaer yn y llawysgrif honno yn llaw'r bardd ei hun. Mater o farn yw peth felly yn y pen draw, ac rydym yn ffodus iawn ein bod yn gallu pwysu ar farn awdurdodol Daniel Huws.

Mae ei erthygl ar drosglwyddiad cerddi Dafydd ap Gwilym yn amlygu un arall o gryfderau gwaith Daniel, sef ei ddi-ddordeb ym mherchnogion y llawysgrifau, y bobl a'u comisiynodd ac a fu'n eu casglu a'u cadw dros y canrifoedd. Mae cydymdeimlad Daniel â'r hynafiaethwyr hyn a'u hymdrechion i gynnal y traddodiad yn amlwg bob amser, ac mae ei waith felly'n goleuo hanes dysg y Gymraeg. A dyma ddod at y *Repertory* lle mae'r wedd hon ar ei waith i'w gweld yn ei chyflawnder.

Wrth geisio cyfleu pwysigrwydd y gwaith hwn, mae amryw ddelweddau'n dod i'r meddwl. Rwyf wedi defnyddio dwy yn barod: y sylfaen sy'n cynnal adeilad a'r allwedd sy'n agor drysau; mae 'sylfaenol' ac 'allweddol' yn eiriau treuliedig erbyn hyn, ond maent yn gwbl briodol gyda'u grym cysefin am waith Daniel. Ac wrth i mi bori yn y cyfrolau dros yr wythnosau diwethaf a gwrando ar bapurau'r gynhadledd yr wythnos hon, y cwlwm yw'r ddelwedd sy'n dod i'm meddwl amlaf, sef y cysylltiadau dibendraw rhwng llawysgrifau a'i gilydd sy'n dod i'r amlwg yn llawn am y tro cyntaf yn y *Repertory*. Bydd olrhain y cysylltiadau hynny yn cadw ysgolheigion yn brysur ac yn ddedwydd am amser maith i ddod, ac mae'n siŵr o arwain at lawer o waith newydd yn y maes, fel y mae sawl un o'r siaradwyr wedi cydnabod yr wythnos hon.

Mae 'campwaith' yn air arall sydd wedi dioddef traul yn sgil chwyddiant ieithyddol dros y blynyddoedd, ond mae'n anodd meddwl am waith sy'n haeddu'r disgrifiad hwnnw'n fwy na'r *Repertory*, ac ar un olwg mae'r gair Cymraeg yn well na'r gair Saesneg cyfatebol 'masterpiece', neu'r Lladin 'magnum opus', oherwydd y syniad o orchest anodd sy'n rhan o'r gair 'camp'. 'Cyflawniad sy'n gofyn dysg neu wroldeb i'w wneuthur' yw diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o 'camp', ac mae hwnnw'n ddisgrifiad teg o'r cynllun hynod uchelgeisiol yr ymgymrodd Daniel Huws ag ef wedi iddo ymddeol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Mae'r ddysg yn amlwg ar bob tudalen o'r *Repertory*, a gwroldeb y cyflawniad yw'r peth sy'n taro dyn wrth ystyried maint y cynllun, sef y nod o lunio storfa gynhwysfawr yn cynnwys popeth sy'n perthyn i'r traddodiad llawysgrifol Cymreig cyn y flwyddyn 1800. Mae dros dair mil o lawysgrifau'n cael eu disgrifio yng nghyfrifol gyntaf y *Repertory*; mae'u hysgrifwyr a rhai o'u perchnogion yn cael eu trafod fesul un yn yr ail gyfrifol, ac mae dros fil o ddelweddau yn arddangos eu hysgrifen yn y drydedd gyfrifol. Mae'r llawysgrifau hyn ar wasgar mewn cadwrfeydd yng Nghymru a Lloegr ac amryw fannau eraill ar draws y byd, a dyma'r tro cyntaf i'r cyfan gael ei gyflwyno gyda'i gilydd yn un corff mawreddog.

Byddai cyfeirlyfr o'r maint hwn yn ormod o dasg i un dyn ar ei ben ei hun; roedd angen cymorth a chefnogaeth mewn sawl ffordd, ac mae Daniel wedi cydnabod ei ddyled i nifer fawr o bobl a fu'n ei gynorthwyo ar hyd y daith. Nid er mwyn tynnu oddi wrth gamp Daniel yr wy'n dweud hynny nawr, ond yn hytrach er mwyn gwneud y pwynt bod ei hawddgarwch a'i allu i ysbrydoli pobl eraill i gydweithio ag ef wedi bod yn allweddol i lwyddiant ei gynllun. Roedd pawb yn gweld pwysigrwydd y *Repertory* ac yn falch o gael cyfrannu at waith sydd mor sylfaenol i'r ddisgyblaeth.

Fe welwch, gyda llaw, fy mod i wedi bod yn cyfeirio at y gwaith yn gryno fel 'y *Repertory*', ac mae hynny'n adlewyrchu tuedd sydd wedi bod yn gyffredin yn ein disgwrs academiaidd ers tro wrth i bobl gyfeirio at y gwaith yn ystod ei dyfiant. Wrth fabwysiadu *Repertory* yn deitl ar ei waith mae Daniel fel petai wedi perchnogi'r gair, a dyma fydd 'y *Repertory*' yn ein byd ni o hyn ymlaen. Storfia yw ystyr *Repertory* yn y cyd-destun hwn, ond gair tebyg ei sŵn sy'n nes ati o ran cyfleu gwerth y gwaith yw trysorfa.

Ond mae'n bwysig arfer y teitl llawn hefyd o dro i dro, yn enwedig heddiw, oherwydd mae cyhoeddi *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800 – c.1800* yn ddigwyddiad o bwys cenedlaethol, ac mae'n dra phriodol bod Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, yn bresennol yn y cyfarfod lansio ddydd Llun. Mae llên a dysg wedi bod yn rhan bwysig o hunan-ddelwedd y Cymry ers canrifoedd, a nawr mae gennym brawf cadarn o hyd a lled ein hetifeddiaeth mewn gwaith sy'n destun balchder i ni fel cenedl.

Mae Daniel Huws wedi derbyn amryw anrhydeddau eisoes, gan gynnwys Gwobr Derek Allen yr Academi Brydeinig, doethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Cymru a chymrodoriaeth gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac mae'n briodol iawn bod Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn awr yn ei anrhydeddu hefyd. Galwaf felly ar yr Athro Prys Morgan i gyflwyno medal y Gymdeithas iddo.

Anerchiad Dafydd Johnston
22 Mehefin 2022